# Academi Gwelliant Cymru
# Canllaw Pecyn Cymorth



# Cyd-gynhyrchu

## Cyflwyniad

Mae cyd-gynhyrchu yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol sy'n gweithio ar y cyd â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, yn ogystal â'u teuluoedd a'u gofalwyr, i ddylunio a datblygu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gofal a chymorth cleifion, a thrwy hynny yn gwella eu profiad.

Mae cyd-gynhyrchu yn bartneriaeth gyfartal rhwng defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr, sy'n cydnabod safbwyntiau a chyfraniadau unigryw a gwerthfawr yr holl unigolion hyn wrth ddiffinio angen a chydweithio tuag at ddatblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy.

Mae NHS England (2023) yn nodi:

*"Co-production is a way of working that involves people who use health and care services, carers and communities in equal partnership; and which engages groups of people at the earliest stages of service design, development and evaluation.*

*Co-production acknowledges that people with 'lived experience' of a particular condition are often best placed to advise on what support and services will make a positive difference to their lives. Done well, co-production helps to ground discussions in reality, and to maintain a person-centred perspective. Co-production is part of a range of approaches that includes citizen involvement, participation, engagement & consultation."*

## Rhesymeg

Mae cyd-gynhyrchu yn cynnwys gweithio ar y cyd â chleifion, eu teuluoedd a'u cymunedau i ddylunio a rhoi gwasanaethau gofal iechyd sy'n diwallu eu hanghenion. Trwy gynnwys rhanddeiliaid yn y broses, gall cyd-gynhyrchu helpu i wella boddhad cleifion, cynyddu effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, a sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar gleifion, yn gynhwysol ac yn deg i bawb.

Mae cyd-gynhyrchu wedi'i adeiladu ar y cysyniad mai pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau a'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau yw'r bobl orau i awgrymu gwell ffyrdd o gydweithio. Mae ymchwil gref i awgrymu bod gan gymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu gyfoeth o fanteision i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol (Mockford et al, 2012).

- Mwy o ymgysylltiad a chyfalaf cymdeithasol
- Grymusiad a pherchnogaeth wirioneddol
- Gwell iechyd a lles
- Cymunedau cryfach, mwy cydlynol
- Gwasanaethau mwy perthnasol ac effeithiol
- Cynaliadwyaeth a gwerth am arian

Mae cyd-gynhyrchu yn canolbwyntio ar y dull gorau ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o fewn y gymuned ac ar asedau unigolion o ran y ffordd orau o gefnogi claf/person neu sefydliad. Mae'n ymwneud â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn deall anghenion cleifion ac yn ymgysylltu â nhw pan yn dylunio a darparu gwasanaethau. Mae'n ddull cadarnhaol ac yn canolbwyntio ar gryfderau yn hytrach na chyfyngiadau cleifion.

**FIDEO:** Gwyliwch y clip fideo hwn lle mae'r Athro Berwick yn trafod manteision cyd-gynhyrchu i gymunedau a sefydliadau gofal iechyd[1].



[1] Sylwch fod isdeitlau ar gael, a bod modd addasu cyflymder chwarae o fewn yr eicon gosodiadau fideo, petai angen hynny.

## Cefndir

Defnyddiodd enillydd Gwobr Nobel Elinor Ostrom, y term cyd-gynhyrchu gyntaf yn y 1970au wrth ddisgrifio cyfraniad gwerthfawr defnyddwyr gwasanaeth wrth greu a darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan gydweithio fel partneriaid cyfartal â darparwyr gwasanaethau, i wneud gwelliannau.

Nid dim ond ideoleg yw cyd-gynhyrchu, mae wedi'i ymgorffori mewn canllawiau cyfreithiol ac fe'i ystyrir yn arfer gorau. Deddf Gofal (2014) oedd un o ddeddfwriaethau cyntaf y DU i gynnwys y cysyniad o gyd-gynhyrchu fel rhan o’i chanllawiau statudol, gan nodi y dylai “*awdurdodau lleol, lle bo hynny'n bosibl, hyrwyddo cyfranogiad gweithredol wrth ddarparu ymyriadau sy'n cael eu cyd-gynhyrchu gydag unigolion, teuluoedd, ffrindiau, gofalwyr, a'r gymuned.”*

Ym mis Ebrill 2016, daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym yng Nghymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i unigolion gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal ac i fod yn bartneriaid gweithredol yn natblygiad a chyflenwad gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer. Cyd-gynhyrchu, lles ac anghenion yr unigolyn yw prif egwyddorion y Ddeddf.

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (2020) hefyd yn cefnogi cyd-gynhyrchu a'r angen am onestrwydd a thryloywder os caiff pobl eu niweidio. Mae'r Ddeddf hon yn sicrhau bod cyfraniadau pobl yng Nghymru at wasanaethau iechyd a gofal yn cael eu cynrychioli gan Llais, corff dinasyddion ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

## Pryd i’w ddefnyddio

Defnyddir cyd-gynhyrchu wrth wneud penderfyniadau iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi gwell canlyniadau i bob parti sy'n gysylltiedig a dylid ei ystyried ar gyfer datblygu a darparu gofal effeithiol, o ansawdd o'r cychwyn cyntaf. Mae angen i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol weithio mewn partneriaeth â chleifion a defnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio a darparu gwasanaethau gan mai dyma’r arfer gorau.

Gellir defnyddio cyd-gynhyrchu mewn gwahanol leoliadau gofal iechyd, megis wrth:

- Ddatblygu polisïau a/neu wasanaethau gofal iechyd
- Ailgynllunio'r gwasanaeth
- Darparu gofal

Gellir ei ddefnyddio i:

1. **Wella** dyluniad gwasanaethau gofal iechyd i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cleifion a'u teuluoedd.

2. **Annog** cleifion a defnyddwyr gwasanaeth i gymryd mwy o ran yn eu gofal, gan gydnabod eu gwybodaeth a'u profiad o'u sefyllfa neu gyflwr personol.

3. **Datblygu** polisïau gofal iechyd sy'n adlewyrchu safbwyntiau a phrofiadau cleifion a chymunedau.

4. **Grymuso** cymunedau a grwpiau cleifion i ddatblygu eu gwasanaethau a’u mentrau gofal iechyd eu hunain.

## Sut i’w ddefnyddio

Er mwyn i gyd-gynhyrchu ddod yn rhan annatod o’ch arferion gwaith, bydd angen i chi greu diwylliant o ymddygiadau a gwerthoedd cadarnhaol er mwyn rhoi sylfaen i gyd-gynhyrchu ffynnu.  Mae angen i ddiwylliant o berchnogaeth, dealltwriaeth a rennir, bod yn agored, tryloywder, ymrwymiad, cyfathrebu clir, a pharch at gleifion a staff fod yn bresennol.

Efallai y bydd angen newid mewn diwylliant er mwyn cyd-gynhyrchu ac mae cefnogaeth eich timau rheoli yn hanfodol. Unwaith y bydd y diwylliant hwn wedi'i sefydlu, gallwch ddechrau gweithio tuag at gyd-gynhyrchu mewn iechyd a gofal cymdeithasol.




Dyma rai camau y dylech eu dilyn wrth ddefnyddio cyd-gynhyrchu mewn gofal iechyd:

| | |
|---|---|
| **Nodidau** | • Ystyriwch beth ydych chi'n gobeithio ei gyflawni trwy gynnwys cleifion a chymunedau yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd?<br>• Gallai hyn fod yn unrhyw beth o wella boddhad cleifion i gynyddu effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd. |
| **Nodi rhanddeiliaid** | • Ystyriwch pwy fydd yn rhan o'r broses gyd-gynhyrchu. Gallai hyn gynnwys cleifion, eu teuluoedd, darparwyr gofal iechyd ac arweinwyr cymunedol. |
| **Datblygu eich cynllun** | • Datblygwch gynllun ar gyfer cynnal y broses gyd-gynhyrchu.<br>• Gallai hyn gynnwys sefydlu grŵp llywio, grwpiau ffocws neu gyfweliadau gyda chleifion ac aelodau o'r gymuned, cynnal gweithdai neu ddigwyddiadau cydweithredol eraill. |
| **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid** | • Ymgysylltwch â'ch rhanddeiliaid yn y broses gyd-gynhyrchu.<br>• Gallai hyn olygu cysylltu â chleifion, grwpiau cymunedol, darparwyr gofal iechyd, a phartïon eraill sydd â diddordeb i gasglu mewnbwn ac adborth ar wasanaethau iechyd a gofal |
| **Cyd-ddylunio a chyd-gyflwyno** | • Cyd-ddyluniwch a chyd-gyflwynwch y gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir.<br>• Gweithiwch ar y cyd â rhanddeiliaid i ddatblygu a gweithredu gwasanaethau gofal iechyd sy'n diwallu anghenion cleifion a'u teuluoedd a/neu ofalwyr. |
| **Gwerthuso dysgu** | • Gwerthuswch y broses gyd-gynhyrchu a dysgwch o'r profiad.<br>• Gallai hyn gynnwys arolygon neu grwpiau ffocws i gasglu adborth a defnyddio'r adborth hwn i wella'r broses gyd-gynhyrchu wrth symud ymlaen. |

## Beth nesaf?

Un offeryn i amlygu gwahanol lefelau o gyfranogiad yn y broses gyd-gynhyrchu, yw'r ysgol isod, sy'n dangos y gwahanol lefelau o gyfranogiad a phartneriaeth sydd eu hangen i weithio gyda phobl. Dylai hyn eich helpu i ystyried sut mae gwneud penderfyniadau'n cael ei rannu yn eich sefydliad; gallech chi ofyn i chi eich hun a oes gan bob cyfranogwr yr un pŵer i wneud penderfyniadau, neu a ydych chi'n gwneud dim ond hysbysu a cheisio barn (gwneud ar gyfer) neu addysgu (gwneud i) bobl?




Yr ysgol gyd-gynhyrchu

**FIDEO**: Gwyliwch [y fideo hwn gan NHS England] i gael trosolwg wedi'i animeiddio o rôl cyd-gynhyrchu mewn gwella ansawdd ac wrth ddarparu gwell gofal, gan gynnwys offer i helpu cyd-gynhyrchu i ffynnu.

## Awgrymiadau defnyddiol

1. **Byddwch yn dryloyw ac yn gynhwysol**: Mae'n hanfodol bod yn dryloyw ac yn gynhwysol wrth weithredu cyd-gynhyrchu. Mae hyn yn golygu cynnwys cleifion, eu teuluoedd a'u cymunedau ym mhob cam o'r broses gyd-gynhyrchu, o gynllunio i gyflwyno. Mae hefyd yn golygu bod yn agored ac yn onest ynglŷn â nodau cyd-gynhyrchu a rolau rhanddeiliaid yn y broses. Mae angen parch, gofal a chwilfrydedd gwirioneddol am farn y naill ochr a'r llall.

2. **Pwysleisio gwneud penderfyniadau ar y cyd**: Mae cyd-gynhyrchu yn ymwneud â gwneud penderfyniadau ar y cyd. Mae'n bwysig creu diwylliant o gydweithredu a chynhwysiant, lle mae cleifion a'u teuluoedd yn cael eu hystyried fel partneriaid cyfartal wrth gynllunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys gwerthfawrogi eu mewnbwn a'u hadborth a'u grymuso i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gofal eu hunain.

3. **Mesur effaith a dathlu llwyddiant**: Gall cyd-gynhyrchu fod yn broses hir a heriol, ond mae'n hanfodol mesur effaith y broses gyd-gynhyrchu, cynnwys pawb yn y broses werthuso a dathlu ei llwyddiannau. Gall hyn helpu i feithrin momentwm a chefnogaeth ar gyfer mentrau cyd-gynhyrchu yn y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig cydnabod a dysgu o unrhyw heriau neu fethiannau a wynebir yn ystod y broses, a defnyddio'r wybodaeth hon i wella ymdrechion yn y dyfodol.

## Adnoddau ychwanegol

Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am sut y gall arferion gwelliant fod o fudd i'ch gweithle, rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi. Ewch i wefan Academi Gwelliant Cymru i gael rhagor o wybodaeth neu anfonwch e-bost atom improvementcymruacademy@wales.nhs.uk i gael gwybodath am y cyrsiau gwelliant rydym yn eu cynnig.

## Darllen pellach

Andrews N., Calder G., Blanluet N. a Baker R. (2023) Cyd-gynhyrchu: Ymchwil i ategu Adroddiad Terfynol
Gwerthuso Deddf Gwasanaethau
Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 38/2023. Ar gael ar-lein yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2023-03/cyd-gynhyrchu--ymchwil-i-ategu-adroddiad-terfynol-gwerthuso-deddf-gwasanaethau-cymdeithasol-a-llesiant-cymru-2014.pdf (Cyrchwyd 15 Mai 2025).

Rhwydwaith cyd-gynhyrchu Cymru (Dim dyddiad). Beth yw Cyd-gynhyrchu? Ar gael ar-lein yn: https://copronet.wales/cy/home/coproduction/ (Cyrchwyd 15 Mai 2025)

Gwelliant Cymru (Chwefror 2023). Cyd-gynhyrchu (Isdeitlau Cymraeg). Ar gael ar-lein yn: https://www.youtube.com/watch?v=u2qIlro_dek (Cyrchwyd 15 Mai 2025)

Mockford, C., Staniszewska, S., Griffiths, F., Herron-Marx, S. (2012). The impact of patient and public involvement on UK NHS health care; a systemic review. *International Journal of Quality in Healthcare*. 21 (1), tt. 28-38.

NHS England (2023a). Co-Production Ar gael ar-lein yn https://www.england.nhs.uk/always-events/co-production/ (Cyrchwyd 15 Mai 2025).

NHS England (2023). Co-production: an introduction. Ar gael yn: https://www.england.nhs.uk/long-read/co-production-an-introduction/#background-to-the-development-of-this-resource (cyrchwyd 23/05/25).

NHS England (dim dyddiad). Knocking on the door: How we started with what matters to the community to transform care together. Ar gael ar-lein yn: https://www.youtube.com/watch?v=zj0Av6u7PQ0 (Cyrchwyd 15 Mai 2025)

NHS England (dim dyddiad). Our co-production Journey. Ar gael ar-lein yn: https://www.youtube.com/watch?v=Vo_1VQEjI3M (Cyrchwyd 15 Mai 2025)

Nordin A, Kjellstrom S, Robert G, et. al. (2023) Measurement and outcomes of co-production in health and social care: a systematic review of empirical studies. *BMJ Open* 2023; 13: e073808. doi: 10.1136/bmjopen-2023-073808

Social Care Institute for Excellence (Gorffennaf 2022). Co-Production: What is it and how to do it. Ar gael ar-lein yn: https://www.scie.org.uk/co-production/what-how#culture (Cyrchwyd 15 Mai 2025).

Gofal Cymdeithasol Cymru. Trosolwg o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014). Ar gael ar-lein yn: https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/hyb-gwybodaeth-a-dysgu/deddf-sswb/trowsolwg?_gl=1*zn3uyv*_ga*MjM2NTY4MTA0LjE3NTEzNjI1OTM.*_ga_NZV6WMW0HJ*czE3NTEzNjI1OTMkbzEkZzAkdDE3NTEzNjI1OTMkajYwJGwwJGgw (Cyrchwyd 15 Mai 2025).

Llywodraeth y DU (2014). Deddf Gofal 2014. Ar gael ar-lein yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/23/contents/enacted (Cyrchwyd 15 Mai 2025).

Llywodraeth Cymru. 2025. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Codau a chanllawiau: Rhan 9 Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth). Ar gael ar-lein yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-05/rhan-9-canllawiau-statudol-trefniadau-partneriaeth-codau-a-chanllawiau.pdf